
# Gardd Basg


**Dewch i ail greu digwyddiadau'r Pasg tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl yn Jerwsalem!**

1




Gosodwch y pot ar ei ochr yng nghanol y bowlen. Dyma'r ogof lle rhoddwyd corff Iesu Grist ar ôl iddo farw. Joseff o Arimathea oedd piau'r ogof.

2




Llanwch y bowlen gyda phridd gan ei roi dros y potyn fel ei fod yn edrych fel bryn. Hwn fydd Bryn Golgotha neu Lle y Benglog lle y cafodd Iesu Grist ei groeshoelio gan y Rhufeiniaid.

3





Heuwch ychydig o had yn y pridd fel bod gwair yn tyfu dros y bryn. Ar ôl mynd adref cofiwch roi ychydig o ddŵr iddo fedru tyfu.

4




Dewiswch 6 darn o bren a chlymwch 2 at ei gilydd gyda llinyn i wneud 3 croes.

5




Gosodwch y 3 croes ar ben neu wrth ochr y bryn gan roi'r groes fwyaf yn y canol i ddangos mai dyma groes Iesu Grist. Bob ochr i Iesu roedd 2 leidr wedi eu croeshoelio. Roedd un yn gwneud sbort ar ben Iesu. Ond credodd y llall, ac ar ôl marw cafodd fod gydag Iesu yn y nefoedd.

6




Dewiswch garreg fawr a'i gosod wrth geg yr ogof. Pan gladdwyd Iesu rhoddodd y Rhufeiniaid garreg enfawr i rwystro neb rhag dwyn corff Iesu. Roedd dau filwr y tu allan i'r ogof yn ei gwarchod.

7



Gosodwch flodau o gwmpas yr ogof gan fod yr ogof mewn gardd. Daeth Mair a'i ffrindiau at y bedd er mwyn eneinio'r corff ond roedd y garreg wedi cael ei symud a'r ogof yn wag!! Gwelodd Mair Iesu ond meddyliodd mai garddwr oedd!

8



Rhoddwch ddarn bach o ddefnydd gwyn tu mewn i'r bedd. Dyma'r dillad y lapiwyd corff Iesu ynddynt. Pan redodd Pedr i'r bedd roedd y dillad i'w gweld y tu mewn ond doedd corff Iesu ddim yno.

9




Ysgrifennwch 'Iesu yn fyw! ar y garreg fawr i gofio bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw ar ôl 3 diwrnod a'i fod dal yn fyw heddiw!

Capel Craig + Ysgol Sul pob bore Sul, 10yb, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog @craigblaenau